

Chwarelwyr



Huw Jones

Ddechreuis i weithio yn Chwaraal Dinorwig yn 1944, ond o'n i wedi mynd o 'na pan gaeodd y chwaraal. Glyw'is i am y bwriad i droi'r gweithdai yn amgueddfa, er dwi'm yn cofio'r diwrnod agorodd yr amgueddfa - o'n i'n gweithio yn Rio Tinto neu Trawsfynydd ar y pryd. Ddes i weithio i'r amgueddfa yn '89 - o'n i'n teimlo fatha mod i adra wedyn do'n.

Ges i'n lle am bod 'na chap o'r enw Owen Williams wedi mynd yn sâl a mi roth o'i waith i fyny - roedd o 'di bod yn sdiwart bach yn y chwaraal. Ro'dd rhan fwyaf o weithwyr yr amgueddfa wedi bod yn gweithio'n chwaraal. Mi fuo 'na dipyn bach o beth'na tua Llanberis un tro - mi odd 'na un joban yn mynd yn yr amgueddfa ac o'dd 'na ddau yn trio, plisman o'dd un, a chwarelwr o'dd llall - a'r plisman cha'th hi!

Dwi'n cofio'r criw o'dd yma bryd hynny, Wil Lôn Bost yn hollti a naddu, a Huw Bach yn y ffowndri yn llenwi patryma' i ddangos i'r fusutors a ballu. Y manijar - Hugh Jones o'dd enw hwnnw 'fyd - mi oedd o'n bryfociwr 'de! O'dd Llewelyn y gofaint a Dylan Parry efo fo'n cael ei ddysgu. Mi o'dd Twm John yn y giât a Dilys yn y siop. O'dd Dr Dafydd yn rêl boi 'de, odd o'n bryfociwr 'fyd, hannar chance gai o! Odd 'na ddau, dri o hogia er'ill jesd yn cerdded hyd y lle 'fyd. Mi o'dd 'na injan drên yma ac o'dd Dylan Parry yn mynd â hi 'nôl a mlaen, 'mond i pobl weld 'lly.



Owen Roberts (Now) & Dennis Jones (Den)

Pan nes i riteirio nath y gofaint Dylan Parry feic bach i mi, oddan nhw'n gwerthu rheiny am bum punt ar hugain a mi oedd anhw'n gwerthu 'te.

Roddan ni'n gneud petha' i'w gwerthu yn y siop, calonna' a ryw lechi bach. Toedd an ni'm yn g'neud llawar, doedd an ni'm yn cal amser i 'neud nhw.

Ro'dd na gastio un waith yr wythnos ar ddydd lau, wedyn o'dd Wil Lôn Bost odd yn naddu efo fi yn mynd at Huw Bach, er mwyn tywllt y petha' 'ma'n boeth i'r mowlds - o'dd raid cael dau yno.

Cael siarad efo pobl o'n i'n fwynhau fwya'. Pan fydda' criw coach yn dod yno, o'dd y criw yn landio a talu'n y giât, wedyn o'n i neu Wil yn mynd â nhw i weld fideo o'dd yn para ryw 20 munud. Wedyn o'dd an ni'n mynd â nhw rownd. Deud wrthyn nhw i ddechra' am ein gwaith ni ar wyneb y graig, wedyn o'dd an ni'n dŵad i'r lle o'dd y gofaint, wedyn o'dd an ni'n hollti a naddu efo nhw a siarad a mwydro. Trwadd i'r Ffowndri wedyn a fyny i Llofft Batrwm a wedi ryw siarad a holi a stwna, mynd lawr ac ymlaen i'r olwyn ddŵr. Wedyn 'na fo, o'dd an ni wedi gorffen ac o'dd an nhw'n mynd eu hunain wedyn, lle bynnag o'dd an nhw isio mynd ar hyd yr iard i gyd.

'Sdim isio anghofio am y diwydiant, annw'l Dad nagoes. Chwaraal Dinorwig o'dd yr amgueddfa i mi er bod 'na amball i beth wedi dŵad yno o chwareli er'ill. Mi odd 'na griw da 'no chi, criw o'dd yn tynnu efo'i gilydd, o'dd na ddim ffraeo na dim byd yno.

'Ro'dd rhan fwyaf o weithwyr yr amgueddfa wedi bod yn gweithio'n chwaraal'

I started working in Dinorwig Quarry in 1944, but I'd left before the quarry closed. I heard about the plan to turn the workshops into a museum, although I don't remember the day the museum opened - I was working in Rio Tinto or Trawsfynydd at the time. I came to work in the museum in '89 - I felt as if I was home then.

I got the job because a chap called Owen Williams had become ill and given up work - he'd been an assistant steward in the quarry. Most of the staff at the museum had been working in the quarry. There was a bit of a to-do in Llanberis once - there was a job going in the museum and two had applied, one a policeman



and the other a quarryman - and it was the policeman who got it!

I remember the gang that was here at that time, Wil Lôn Bost splitting and dressing, and Huw Bach in the foundry filling patterns to show the visitors and so on. The manager - his name was Hugh Jones too - he was a real joker! Llewelyn was in the smithy and Dylan Parry was there as

Quarrymen

Wil Lôn Bost

(William Thomas Roberts)



his apprentice. Twm John was at the gate and Dilys in the shop. Dr Dafydd was a real character, he was a joker as well, every chance he had! There were also two or three lads just keeping an eye on the place. There was a train engine here and Dylan Parry would drive it back and forth, for people to see.

'Most of the staff at the museum had been working in the quarry'

When I retired the Blacksmith, Dylan Parry, made a model bike for me. They sold them for twenty five pounds and they really did sell.

We'd make things to sell in the shop, hearts and small slates. We didn't make many, we didn't have the time to make them.

There'd be casting there once a week on Thursday. Wil Lôn Bost, who dressed slates with me, would go to help Huw Bach, to pour the molten metal into the moulds - you had to have two to do it.

The thing I enjoyed most was talking to people. When a coach-load of visitors arrived they'd get off and pay at the gate, then Wil or I would take them to see the video which lasted about 20 minutes. Then we'd take them around. We'd first of all tell them how we used to work on the rock face, then we'd go to where the blacksmiths work, then we'd split and dress slates and discuss it with them. Through to the foundry next and up to the pattern loft and after talking and answering questions we'd go down to see the water wheel. And that was that, we'd finished and they'd go their own way afterwards, wherever they wanted in the yard.

We mustn't forget about the industry, goodness no. The museum was Dinorwig Quarry to me, although a few things had been brought there from other quarries. There was a good crowd there, you know, we all pulled together; there was never any quarrelling.

Roedd fy ngŵr i, Wil Lôn Bost oedd anhw'n ei alw fo, yn gweithio'n chwaraal tan iddi gau yn '69. Oedd an ni'n falch bod y chwaraal yn troi'n amgueddfa, rhywbeth i ddangos be odd yr hogia di bod yn neud 'te? Roedd Wil wrth ei fodd yno, roedd o'n licio siarad efo pobl.

Mynd i weld gwaith Wil ydy'n hoff ran i o'r amgueddfa, fyddai'n mynd bob tro i weld o. Da ni'n mynd yn aml yna am dro a nôl panad.

Mrs Eunice Roberts

Pan oedd Dad yn gweithio'n y chwaraal, roedd o'n gwlychu ac allan drwy'r dydd bob tywydd. Wedyn roedd gweithio'n yr amgueddfa yn wahanol iawn er ei fod o'n dal i hollti a naddu. Roedd o wrth ei fodd cael dangos i'r plant, roedd o wrth ei fodd os basa'r ysgolion yn mynd yna. Yn bôn y peth

i gyd, chwaraal oedd ei fywyd o. Roedd o'n gweithio yno ers oedd o'n ifanc ac hyd yn oed ar ôl iddi gau ac a'th o i'r ffactri i weithio, oedd o wrth ei fodd cael mynd yn ôl i'r amgueddfa. Y chwaraal oedd ei galon o.

Wrth fynd lawr i'r amgueddfa byddai'n teimlo'n agosach at Dad yna. Ella bod hynny'n swnio'n beth dwl i ddeud. Er nad ydy'r blocyn roedd o'n arfar ista arno yna, er nad ydyn nhw'n gweithio yn y fan yna rwan, pan fyddai'n cerddad trwy'r Gilfach Ddu mae'n dod ag atgofion yn ôl. Ma' rhywun yn agosach at Dad adag yna dwi'n teimlo. Fedrai ddod i tŷ Mam a ella nai ddim meddwl am Dad, ond pan dwi'n mynd lawr i fan'no fyddai'n meddwl amdano fo'n syth.

Mrs Helen Sharp

My husband, Wil Lôn Bost they called him, worked in the quarry until it closed in '69. We were glad that the quarry was being transformed into a museum, something to show what the men had been doing.

Wil loved the place, he liked talking to people. What I like most about going to the museum is seeing Wil's work there, I always go to see it. We often go there for a walk and a cup of tea.

Mrs Eunice Roberts

When Dad worked in the quarry, he'd get soaked working outside all day in all weathers. Working in the museum was very different, although he was still splitting and dressing slates. He delighted in showing this to the children, and

loved it when schools went there. The fact is that the quarry was his whole life. He'd been working there since he was a young man, and even after it closed and he went to the factory to work he loved going back to the museum. That's where his heart was - in the quarry.

When I go down to the museum I feel closer to Dad there. Perhaps that sounds a foolish thing to say. Although the block he used to sit on isn't there, although they don't work there anymore, when I walk through Gilfach Ddu it brings back memories. I feel I'm closer to Dad then. I can come to Mam's house and not think about Dad, but when I go down there I think about him straight away.

Mrs Helen Sharp



Model gan Wil - Model by Wil

Sylw ar y Staff


Beth ydych i'n fwynhau fwyaf am y swydd?
What is the most enjoyable aspect of your job?

Swydd: Gronchwyliwr Masnachu

Cyfarfod yr ymwelwyr sy'n dod i'r amgueddfa. Mae pobol yn gwirioni pan mae nhw'n gweld bod yna lechi ar werth yn y siop - mi ydan i'n ei gymryd yn ganiataot ond mae gweld ymateb ymwelwyr yn fy atgoffa pa mor anhysgol ydi'r ardal yma go iawn!

Job Title: Trading Supervisor

Meeting the visitors that come to the museum, people get really excited when they see that they can buy slates in the shop-seeing their reaction makes me realise how amazing this area really is, I think we take it for granted.



Sian Sibley

Swydd: Cynorthwy-ydd Caffi
Yr hwyl efo'r staff!

Job Title: Cafe Assistant
Having fun with the other staff!



Pat Mowll




Swydd: Swyddog Addysg

Yr elfen o'r gwaith dwi'n fwynhau fwyaf ydi gweithio efo plant. Mi fyddai'n cael bodddhad mawr o'r broses cyllunio hefyd a tmy weld prosiect dwi wedi bod yn rhan o'i drefnu yn dilyn fwyth.

Job Title: Education Officer

The aspect I enjoy most is working with children. The planning process also gives me great pleasure - when I see a project that I've been a part of organizing coming together.



Elen Roberts



Swydd: Cynorthwy-ydd Siop
Yr amgyniath, dwi'n gweithio yn y siop ac yn y caffi felly mae yna agweddau gwahanol i'r swydd.

Job Title: Shop Assistant
The variety, I work in the shop and the cafe so there are different aspects to my job.



Cheryl Ninnnes

Swydd: Cynorthwy-ydd Caffi
Y gwaith blaen tîj, siarad efo'r ghoedd.

Job Title: Cafe Assistant
Being front of house and talking to the public.



Soria Hughes

Staff Spotlight

Beth yw eich hoff grair yn yr amgueddfa?
What is your favourite object in the museum?

Swydd: Curadur
Un o fy hoff wrthychau yn ffrog yn ystafell wely tîj 1969, a hynny ohermydd ei bod yn fy atgoffa o fy nain.

Job Title: Curator



Cadi Iolen



One of my favourite objects is the dress in the bedroom in the 1969 house in Fron Haul, because it reminds me of Nain (Grandmother).

Swydd: Glanhauwaig
Mae yna jugc binc efo blodau bach ar ben grât tîj 1901 - hwnnw 'di'n hoff beth i!

Job Title: Cleaner
There's a pink jug with small flowers on the mantelpiece in the 1901 house in Fron Haul terrace - that's my favourite thing!



Carol Roberts



Swydd: Ceidwad
Y cerdyn 'Nid oes Bradwr yn y tîj hwn' ohermydd ei amguedd cymdeithasol.

Job Title: Keeper
The card in the window of the 1901 house which reads 'Nid oes Bradwr yn y tîj hwn' (there is no traitor in this house) because of its social significance.



Dafydd Roberts



Swydd: Cynorthwy-ydd Gweinyddu
Y Lustre Jugs yn nhîj'r Prif Beiriannydd

Job Title: Administrative Assistant
The Lustre Jugs in the Chief Engineer's house.



Delyth Jones



Swydd: Swyddog Marchnata
Y Ffenestri - mae nhw'n hollot unigryw a 'dan ni wedi cynnal sawl gweithdy celf yn seiliedig arnynt.

Job Title: Marketing Officer
The window frames - they are completely unique and have been the subject of many art workshops.



Julie Williams



Swydd: Rheolwr Safle
Y 'line shaft' - dwi wedi bod yn ei astudio'n fannwl yn ddiweddar ohermydd ein bod yn y broses o drwsio rhan ohoni.

Job Title: Site Manager
The line shaft - I've been examining it closely lately as we're in the process of repairing a part of it.



Ewos Jones



Dafydd Davies



Swydd: Creffwr Chwavel
 Gweithio yma ers: Ers 1995
 Byw: Rhinllas
 Mwynhau fwyaf am y swydd:
 Cyfarfod gwahanol bobol, pob math o bobol a dwi wrth fy modd yn diddori'r plant sy'n diwad yma.
 Uchaibwynt hyd yma:
 Cefais i fynd drwm i ŵyl Smithsonian yn America, roedd hwnna'n siar yn uchafbwynt. Dwi wedi cyfarfod dipyn o bobol enwog hefyd-dwi'n cofio Rhodri Morgan yn diwad yma.
 Hoff grair: Inden Vz
 Hoff le: Yr ystafell hollti a naddu (Ystafell Dinowig) mae o'n le gwell i bobol weld, er dwi'n meddwl roedd yna well amryglch yn yr hen weithdai, lle roeddau ni'n arfer hollti a naddu. Mae stafell Dinowig fel theatr braidd!

.....
 Job title: Quarry Craftsman
 Started working here: 1995
 From: Rhinllas
 Most enjoyable aspect of the job:
 Meeting people from all walks of life and entertaining children especially!
 Highlight so far:
 I went to the Smithsonian festival in America - that was definitely a highlight! And meeting people like Rhodri Morgan who came here.
 Favourite object: The Vz Indine
 Favourite Place: The slate splitting room - although I preferred the atmosphere in the workshops where we used to do the demos, the Dinowig room is more like an auditorium!



Evan Wyn Thomas

Swydd: Creffwr Chwavel
 Gweithio yma ers: 6 'mlynedd
 Byw: Bethesda
 Mwynhau fwyaf am y swydd:
 Y 'demos' hollti a naddu.
 Uchaibwynt hyd yma:
 Dwi'n cofio diwrnod pan ddaeth Glyn Wise i'r amgueddfa a'r sbort ges i efo'r plant - tris'u cael nhw i wrando ar y side hollti a naddu!
 Hoff grair: Mobile Compressor Ingersoll - Rand, mae o tu allan i'r 'stafell hollti a naddu' ma a dwi'n mynd i'w baentio fo cyn bo hir!
 Hoff le: Ystafell Dinowig lle 'dan ni'n hollti a naddu.

.....
 Job title: Quarry Craftsman
 Started working here: 6 years ago
 From: Bethesda
 Most enjoyable aspect of the job:
 The slate splitting demos
 Highlight so far:
 I remember when Glyn Wise came here for the day and trying to keep the kids focused on the slate splitting!
 Favourite object:
 The Ingersoll-Rand mobile compressor - I'm going to be painting it soon!
 Favourite Place: Dinowig - the room where we have the slate splitting demos.



Carwyn Price

Swydd: Creffwr Chwavel
 Gweithio yma ers: 10 'mlynedd
 Byw: Cwm-y-Glo
 Mwynhau fwyaf am y swydd:
 Gwneud y crefftau llechen
 Uchaibwynt hyd yma:
 Y cwrs 'ffotograffiaeth twll-pin'
 Hoff grair: Inden Vz
 Hoff le: Rhes Fron Haul, yn enwedig tŷ 1861 a 1901, mae'n gysurus iawn yno pan mae yna dân!

.....
 Job title: Quarry Craftsman
 Started working here:
 10 years ago
 From: Cwm-y-Glo
 Most enjoyable aspect of the job:
 Making the slate crafts
 Highlight so far:
 The 'pin-hole photography' course
 Favourite object: The Vz Indine
 Favourite Place: Fron Haul, especially the 1861 and 1901 houses, they're very cosy when the fire's lit!



Hoff le yn yr amgueddfa? Favourite place in the museum?



Maggie Morris

Swydd: Cynorthwy-ydd Caffi
Dwi'n hoffi'r 'wet area' yn yr iard - mi fues i'n rhan o'r prosiect 'ffotograffiaeth twll pin' a'r rhan yna o'r iard wnes i dynnu llun ohono.

Job Title: Café Assistant
I like the 'wet area' in the yard, I was a part of the pin-hole photography project and I photographed the 'wet area'.



Maldwyn Jones

Swydd: Cynorthwy-ydd Amgueddfa
Y Ffowndri - pan oedd hi'n gweithio. Mae'n bwysig oherwydd dyna oedd y gwaith oedd yn cael ei wneud yma'n wreiddiol. Dwi'm yn meddwl bod pobol yn sylweddoli na doedd yna ddim llechi yma!

Job Title: Museum Assistant
The Foundry - when it was working! It's important because that's the work that was here originally. I don't think that people realise that there weren't any slates here!



Swydd: Glanhanwaig
Fron Haul, yn enwedig tŷ 1901 pan mae yna dân - mae'r ymwelwyr yn gwirioni cerdded i mewn a gweld tân yno.

Job Title: Cleaner
Fron Haul, especially the 1901 house when there's fire - visitors love walking in and seeing the fire.



Nicola Jones

Beth yw uchafbwynt eich amser yn yr amgueddfa hyd yn hyn? What is your highlight so far?

Swydd: Glanhanwaig.
Mi wnes i fwyhau'r dramâu yn whai Fron Haul yn 2009 a 2010

Job Title: Cleaner
I really enjoyed the plays in Fron Haul in 2009 and 2012



Margaret Griffiths

Swydd: Swyddog Cefnogi Gweithgareddau
Mae yna sawl uchafbwynt er mai cyfnod byr dwi wedi bod yma!
Gweithdai 'Dimnod Grolchi', gwaith curadurol yn Fron Haul, Sioe Trenau Bach a pharatoi ar gyfer pen-blwydd yr amgueddfa wrth gwrs!
Job Title: Activities Support Officer
I have several highlights from the few months I've been here! The 'Washday workshops', curatorial work in Fron Haul, the Model Railway Show and preparing for the museum's birthday of course!



Lois Mai Thomas

Swydd: Technegydd Cymal a Chardw Offer
Symud y 'Rotary Converter' o Llechwedd, mae'n grair arbennig iawn i mi oherwydd pan oeddwn i'n gweithio yno fi oedd yn gyfrifol am edrych ar ei ôl - a dwi wedi dymwed bod fy whaid wedi bod yn gyfrifol amdano hefyd.

Job Title: Equipment Maintenance Technician

Bringing the 'Rotary Converter' here from Llechwedd; I'm particularly fond of it because when I worked there I was in charge of it - and I've heard that my grandfather was responsible for it before me.



Wynford Lloyd Hughes

Swydd: Cynorthwy-ydd Amgueddfa
Gynnw'r trêen bach yn ystod Sioe Trenau Bach!

Job Title: Museum Assistant
Driving the miniature train during the Model Railway Show!



Steven Hughes

Swydd: Cynorthwy-ydd Amgueddfa
Rhes tai Fron Haul oherwydd eu bod yn gallu dwend stori tri cyfnod.

Job Title: Museum Assistant
The quarymen's houses - Fron Haul, because they tell the story of three different periods in time.



Peredur Hughes

Swydd: Crefftwr Llofft Batwm!
Job Title: Craftsman
The Pattern Loft!

Swydd: Cynorthwy-ydd Siop
Mi wnes i fwyhau'r awrs 'ffotograffiaeth twll pin' yn awr.

Job Title: Shop Assistant
I really enjoyed the pin-hole photography course.



Mair Royle

Swydd: Rheolwr Gweinyddol
Dydwn i heb fod yma'n hir ond mi wnes i fwyhau'r dimnod treialu 'sgod a sglob' yn y caffi - mi wnaethon ni wahodd y staff i gyd i droi'r pryd!

Job Title: Administration Manager
I haven't been here long but I did enjoy the day we trialled the fish and chips special in the café - we invited all the staff to test the dish!



Gwennan Jones